

MARWNAD

AR FARWOLAETH

46, 35 5 153

MRS. GRACE PRICE,

Antwyf Wraig y Captain Price o Watford,

YN SIR FORGANWG.

Yr Hon a ymadawodd â'r byd yr 16 o Dachwedd, 1780.

Yn y 37 Flwyddyn o'i hoed: wedi bod yn briod

& Mr. Price 12 Mlynedd.



Hon oedd Wraig fonheddig, nid yn unig o dylwyth goruchel, o ddygiad da i fyddu, ac o rinweddau moesol, ond hefyd goruwch y cwbl wedi dyfod aenabod yr Arglwydd Iesu; ac yn ei holl fywyd a'i hymarweddiad yn byw yn addas i'w phroffes; yn llawn o bob rhinweddau nefol, tiriondeb, ffydd, addfwynder, tosturi, haelioni, gostyngieiddrwydd, a chariad at bawb, gwlad a theulu, ac yn enwedig at eglwys Crist, i'r hon yr oedd hi yn faw, yn chwær, ac yn fammaeth ffyddlon. Ac yn ei chlefyd diweddar, yr llyn oedd y *Pleurisy*, a ddangosodd y fath ffydd, gwroldeb, amynedd, a bodd-londeb, ag synnodd ar bawb ag oedd yn breseanol. Ac a ymadawodd â'r byd tan gauu,

*"O Iachawdwr pechaduriaid,
Sydd a'r gallu yn dy law," &c.*

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN M. JONES, YN HEOL-Y-PRIOR.

1834.

Williams Pantycelyn

15185

X205 31342X

MARWNAD, &c.



WEDI addunedu ganwaith,
Addunedau cedyrn cry',
Na alarwn 'nol neb dynion
Sydd o fewn y nefoedd fry;
Ond y newydd o Forganwg,
'Nynnodd ynnowi alar gân,
Cariad losgodd fy adduned,
Ac a'i gwnaeth hi'n ulw mân.

- 2 Ni feddyliais I fod cariad
Y fath gadwyn gadarn gre',
Ac a rwymai ddyfnder daear
Yn un clwm wrth uwchder ne',
Nes i angau dd'od i Watford,
A dwyn perl oddi yno ma's,
Y ffyddlona un i'r eglwys
Etto droedodd daear lās.
- 3 Watford! Watford! trwm yw'th fiinder,
A disymmwth daeth dy lo's,
Trow'd dy haf yn ddyfnder gauaf,
Trow'd dy forau'n dywyll nos;
Newydd athrist lanwodd glustiau,
Tannu wnaeth fel môr ar led,
Trwy bob cangen faith o Gymru,
Ag sy'n Iesu'n berchen cred.
- 4 Mae'r pregethwyr o bob doniau,
O bob graddau yn gyttun,
Wedi tannu maes y chwedel,
Ladd o angau nefol ddyn;

Hi 'madewodd oll a welir
 Mewn tangnefedd pur a hedd,
 Ac yng nghapel oer Caerffili
 Rhowd hi orwedd yn y bedd.

- 5 Hi orch'mynodd Price ei phriod,
 Priod ffyddlon iddi erio'd,
 I gadwraeth ac i ofal
 Hollalluog ffyddlon Fod;
 Ac hi aeth i gôl y priod,
 Am ei bywyd rhoddodd iawn,
 Ac a'i cliriodd o'i holl ddyled
 Ar Galfaria un prydawn.
- 6 'Roedd hi'n barod, 'roedd hi'n credu,
 Wrth holiadau dwys eu sail,
 Chwilio credu, chwilio eilwaith,
 Chwilio'n gynta', credu'n ail;
 Ond pan aeth hi i lan yr afon,
 Gweled dyfnder maith y dw'r,
 Daliodd afael gref heb ollwng,
 Mewn iachusol ddwyfol ŵr.
- 7 Ac ni's collodd megis Harfey
 Aruo fyth o'i gafael gref,
 Ond hi dreiddiodd i'r lan arall,
 Wrth ei ystlys gadarn ef;
 Yn ei llaw y'ngrym y dyfroedd,
 'Roedd 'spienddrych gloyw clir,
 Trwyddo 'roedd hi'n gwel'd yn olau
 Wastad maith y bywyd dir.
- 8 Ac wrth wel'd y wlad mewn golwg,
 Hi ddechreuodd ar ei chân,
 Angau'n bygwth, bithau'n swnio
 'R anthem bur o hyd y'mlaen;
 Oriau chwech cyn cael yr ergyd,
 Canu wnaeth fel hyn i ma's,
 Pawb o ddautu'r gwely'n synnu,
 A rhyfeddu dwyfol ras.

- 9 O Iachawdwr pechaduriaid,
 Sydd a'r gallu yn dy law,
 Hwylia'm henaid, ebe hi, 'n fuan,
 Dros y cefnfor garw draw;
 Gad i'r wawr fod o fy wyneb,
 Rho fy enaid llesg yn rhydd,
 Nes i'r haul-wen ddisglair godi,
 Tywys fi wrth y seren ddydd.
- 10 Yno o rhwng ei ffryns yn wylo,
 Hedodd ei henai pur i'r lan,
 Ac angylion yn ei dd-rbyn,
 Tan eu haden yn y fan;
 Yno ei ddwyn trwy fai h fyddinoedd
 O gythreuliaid o bob rhyw,
 A'i aurhegu'n bwrceas Iesu,
 'N bur o flaen gorsedd-lainge Duw.
- 11 Dwy ar bymtheg mlwydd ar hugain,
 Ca'dd hi fyw yn myd y groes,
 Wyth o hyny bu hi'n ffidlon
 I ddiodesfodd ddiwyfolloes;
 Ac fel un o goed Paradwys,
 Trwy'r holl ddyddiau yma gawn,
 Bob rhinweddau ffwrwythau bywyd,
 Arni'n pyngo'n beraidd iawn.
- 12 Mae fy meddwl yn cyrwydro,
 Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r de,
 'Mofyn Whitefield fry yn Llundain,
 Whitefield yntau yn y ne';
 'Mofyn Grace Price draw yn Watford,
 Anwyl luthau heb friw na phoen,
 Gydâ miliwn wrth yr orsedd-
 Fainge yn moli'r addfwyn Oen.
- 13 Mi freuddwydiais mod i'n rhedio
 Neuadd Watford un prydawn,
 (Fe wna breuddwyd India a Lloegr,
 Mon, a mynwe yn agos iawn;)

Ac im' gwrdd ag angau'n siglo,
 Ac yn chwrae ei gongrol gledd,
 Wedi gyru'r wraig anwyla'
 Lawr oddi yno i waelod bedd.

14 Mi ofynais pa'm trywanodd
 Un yn anwyl oedd o hyd,
 Gan ei phriod, gan ei theulu,
 Gan yr eglwys, gan y byd?
 Fod ê'n greulon didrugaredd,
 Fyn'd i'r baradwysaidd ardd,
 Eglwys Iesu, torri oddi yno,
 Un o'r blodau mwya' hardd.

15 Lle 'roedd mil, a mil drachefn
 O rai diffrwyth yn y byd,
 Deillion, cloffion, gwiwedigion,
 Oedd yn chwyddo'r trethi o hyd;
 Meddwon, lleiddiaid, atreolus,
 Neu orthrymwyr, melfdith ryw,
 Gado rhei'ny wnaethost angau,
 Lladd y fenyw orau'n fyw.

16 Fe'm hattebodd, minnau'n crynu,
 Arfaeth barodd hyn yn awr,
 Nid wy'n sengu 'stafell wely
 Ond wrth arch y nesoedd fawr:
 Weithiau perri i mi dynnu
 Maes ar frys fy nghleddyf noeth,
 Taro'r plentyn heb drugaredd
 Er is wythnos daeth o'r groth.

17 Ond caiff cant a deg o flwyddau,
 Fyn'd tros goryn ambell un,
 Er yn groes i bob disgwyliad,
 Cyn rhoi nghleddyf ynddo 'nglyn
 Ac fe berir im' rai prydiau,
 Er y galar, er y cri,
 Daro'r dengcyn un ar hugain,
 Ag fo'n dyfod idd i'w fri.

- 18 Yn ol trefn nef gosodwyd,
 Nid yn fyrach, nid yn hwy,
 I ddyn fyw, ac i ddyn farw,
 I gael iechyd, a chael clwy;
 Ni's gall phisic, ni's gall medswm,
 Ni's gall meddyg îs y nen,
 Estyn awr at fywyd brenin,
 Pan del arfaeth nef i ben.
- 19 Pan lefarodd angau felly,
 Mi ddihunais o fy hûn,
 Ac mi welais mai nid addas
 Pwyso o neb ar fywyd dyn;
 Myn y nesoedd fawr ei hamcan,
 Ac fe â Duw a'i waith i ben,
 Pe bai'r diluw'n soddi'r ddaear,
 Pe bai tân yn llosgi'r nen.
- 20 Ac 'rwi'n teimlo mai oferedd
 Yw meddyliau o fyw yn y byd,
 Adeiladu, harddu teiau,
 Casglu cyfoeth mawr y'nglyd;
 Caru gwraig a glynu wrthi,
 Ymddifyrru yn nheg ei gwedd,
 Hono'n diange mewn munudyn,
 Arnai lawr i waelod bedd.
- 21 Ond er hyny y mae hiraeth
 Yn yr eglwys fawr y'nglyn,
 Ond yn benna', fel mae'n addas,
 Yu 'mysgaroedd Price ei hun;
 Colli gwraig wnaeth ef a chymmar,
 Ffyddlon iddo pob peth trwy:
 Ninnau goll'som fani yn Israel,
 Mammaeth heb ei bath hi mwy.
- 22 Ac am hyn rhof rafbôn doniau,
 Cariad sy'n fy ngyrrwy'nla'n,
 Fel bwi'n canu mwy yn y wlo,
 Fel bwi'n wlo mwy yn yr tân;

Trech yw'r cariad nâg y diffodd,
 Nid oes fflam i gael mor gre',
 A chredadyn ar y dddear,
 At ei gyfaill yn y ne'.

23 Canu 'rwyf i'r wraig lareiddia',
 Garediccaf un erioed,
 Ag a welodd fro Morganwg,
 Er ca'dd bro Morganwg fod ;
 Y mae hiraeth trwy fy nghalon,
 Prin 'rwi'n credu mai gwir yw
 Iddi fyn'd o Watford allan,
 Bod hi yn Watford etto'n fyw.

24 Mi ddych'myga ei bod hi'r awr hon
 'Rhyd y gerddi wrth fy nghlun,
 Megis Jones, yn dangos llyslan,
 A dweud enwan pob yr un ;
 Ysbrydoli pob blodeuyn,
 Wrth ei liw ac wrth ei flas,
 Nes gwneud gardd heb wybod imi,
 Yn blanhigion dwyfol ras.

25 Dyma'r pingo, a thraw'r carnasiwn,
 Dyma'r tulip hardd ei liw,
 Onid yw rhai'n (fy mrawd) yn debyg
 I rasusau nefoedd Duw ;
 Daccw'r lili berarogtaidd,
 On'd yw hona megis gras,
 Sydd yn perarogli'r ardal
 Ddedwydd honno torro e' ma's.

26 Mi debyga ei bod hi'n darllen,
 A chrynhof fy llytrau y'nglyd,
 Ac yn nodi'r hymnau hyny,
 Ag oedd fwya'n myn d a'i bryd :
 Neu ynte'n dangos hên bregethau,
 A'r dalenau hyny ca'dd,
 Wrth eu darllen, oleu'r nefoedd,
 A rhyw ddwyfol nefol flas.

- 27 Mi debyga o flaen cannoedd,
 Mod i yn mbulpid mawr y graes,
 Yn pregethu gyd â'r awel,
 Heb arswydo dim o'r nos;
 Grace yn eistedd ar fy neheu,
 Ac yn drachtio dyfroedd byw,
 Ag o'wn I yn eu tywallt allan,
 Wedi eu cael tan orsedd Duw.
- 28 Mi debyga ei bod hi'n dangos
 Addurn amryw liw a llun,
 Caeadlen weithiodd hi yn wryf
 A'i nodwyddau bach ei hun;
 Gwely i'r pregethwyr orwedd,
 'Nol eu chwys a'u taith o bell:
 Dychymmyg yw, nid yw hi yma,
 Mae mewn cwmp'ni lawer gwell.
- 29 Mae'n rhaid credu iddi farw,
 Ond mae fy ysbryd gwan yn un,
 Gydâ Phrice yn cyd-alaru,
 Price ymddifad wrtho ei hun:
 'Dyw hi ddim o fewn y gegin,
 Nid oes heddyw swm ei thraed,
 Yn yr hâl nac yn y parlwr,
 Mae o fewn y nefol wlad.
- 30 Gydâ Cenic, Watts, a Harfey,
 Whitefield, Luther fawr ei fri,
 Jerom, Cranmer, Hus, a Philpot,
 A merthyron nefol lu;
 Myrdd o wragedd ddihangasant,
 Trwy ddyfnderoedd dw'r a thân,
 Oll o flaen y faingc yn canu
 'R baradwysaidd nefol gân.
- 31 Mae pob dyn yn mbalas Watford,
 'Nawr yn rhoi och'neidiau trwm,
 Mae calonnau pawb o'r teulu,
 Fel yr eira, fel y plwm;

Mae'r adeilad hardd sydd ynddo,
 Pob creadur yn gyttun,
 Yn cyd-riddfan ac och'neidio,
 Hyd nod Parot bach ei hun.

32 Yn y capel, tan yr allor,
 Mae ei chorph mewn melus hûn,
 Yno'n llonydd, 'dyw hi'n clywed,
 'Teimlo, nac yn gweled dyn;
 'Does na chylch, na thwrf, na therfysg,
 Rhyfel, gwaedd, na daear-gryn,
 Dim ond udgorn yr arch-angel,
 All ei doddi ar ddihun.

33 Hi ddaw fynu gyda'r werin
 Ddisglair, berffaith, ddwyfol wiw,
 Pwrcas gwerthfawr pen Calfaria,
 Priodas-ferch lân fy Nuw;
 Lawr o'r nef esgynna ei henaid,
 Obry i waelod dwfn fedd,
 Yna yn un mewn mawr lawenydd,
 Ant i'r briodasol wledd.

34 A phe c'negid iddi heddyw,
 Fynydd enang yn Peru,
 Am roi tro i neuadd Watford,
 At ei hanwyl etto i fyw;
 Pan o ffynnon bywyd unwaith,
 Yn y nefoedd yfodd Grace,
 Ni's gall dim a welodd llygad,
 Ar y ddaear roi iddi flâs.

35 Nid rhyw angladd oedd yn Watford,
 Pan aeth gwraig rinweddol wiw,
 I Gaerffili i gael ei chladdu,
 Ar ol golwg dynol-ryw,
 Ond priodas oedd ei hangladd,
 Gwely priodas oedd ei bedd,
 Er na wele pawb o honynt
 'Roedd angylion yn y wledd.

36 'Roedd seraphiaid yno'n gweini,
 Pan y rhowd ei choroph i lawr,
 A'r Messia ei hun yn gwenu,
 Ar yr orsedd ehang fawr;
 Cherubim yn canu hymnau,
 Tramwy mawr o'r ddae'r i'r ne',
 A gorfoledd gan gerubiaid,
 Ddiange sant o'r byd i dre'.

37 Hi ymborthodd ar y manna,
 O fan i fan yn hyfryd iawn;
 Yma'r boreu o'r ffynnon loyw,
 O'r winwydden draw brydnawn;
 Yn Llangann o tan y pulpid,
 'Roedd ei hysbryd, 'roedd ei thre',
 Tra fai Dafydd yno'n chwarai
 'N beraidd ar delynau'r ne'.

38 Iesu'r testun, Iesu'r bregeth,
 Iesu'r ddeddf, a Iesu'r ffydd,
 Meddai Jones, a hithau'n ateb,
 Felly mae, ac felly bydd!
 Ac ma'i heddyw'n profi'r geiriau:
 Ac yn dweud gwirionedd yw,
 Nid oes dim dâl son am dano,
 Ond Iachawdwr dynol-ryw.

39 O Nathaniel! ffrynd y nefoedd,
 Ffrynd yr eglwys fawr bob un,
 Tithau gollaist, er dy alar,
 O'th gariadau'r penna' ddyn;
 Yfodd d' eiriau gyda phleser,
 Bwy'todd hwynt fel manna pur,
 Ac a brofodd yn ei bywyd,
 Bod dy athrawiaethau'n wir.

40 Price yr Ynad, ti gest golled,
 Rwymodd Asthma ar dy 'stôl,
 Aeth dy ferch i ganol nefoedd,
 Fe'th adawyd dithau 'nol;

Aros ronya trwy amynedd,
Yn y dyrus anial dir,
Ti gai gyda gwraig y capten,
Ganu anthem cyn bo hir.

41 Mi wna ngorau ar fod ei henw,
Yn swnio'n beraidd iawn i ma's,
Lawn mor belled ag mae cymro,
Yn berchen dwyfol nefol ras,
Fe gaiff Mon, a Fflint, ac Arfon,
Pembro i wybod mai gwir yw,
I Forganwg esgor hithau
Ar gredadyn uwcha' ei ryw.

42 William Williams wnaeth y gwersi,
Ag oedd yn ei charu'n fawr,
Dechreu'r nos mewn fflam o hiraeth,
Rhodd' ei bin 'sgrifennu lawr,
Ni orphwysodd ef ond rhedeg
Yn ddiattreg yn y bla'n,
Nes oedd tri ar gloch y boreu,
Yn gwneud terfyn ar y gân.

DIWEDD.

Caeſfyrdia: Argraffwyd gan M. Jones.